

ADDOLI GYDA HELP EILUNOD—YDI HYN YN PLESIO DUW?

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi'r fraint fawr sy' gennym o gael addoli Jehofah, ac fe'n unig, heb help eilunod. Mae eilunaddoliaeth yn beth peryglus ac yn rhywbeth i'w osgoi ar bob cyfri'

MAE DEFNYDDIO EILUNOD WEDI BOD YN GYFFREDIN ERS AMSER MAITH (6 mun.)

Ar Areopagus yn Athen 'roedd Paul yn wynebu cynulleidfa alluog a deallus—ond balch hefyd

Gyda pharch fe soniodd Paul wrthyn' nhw eu bod yn "dra chrefyddgar" (Actau 17:22)

'Roedd e wedi sylwi eu bod nhw'n defnyddio eilunod wrth addoli—rhywbeth digon cyffredin yn Athen Prin fod y byd wedi newid yn hyn o beth (*w92* 2/15 3-4)

Mae'n syndod faint o grefyddau sy'n defnyddio eilunod (Dewiswch enghreifftiau o *sh* 96, 99, 117, 141, 157, 182)

Mae Byd Cred yn defnyddio eilunod a delwau

Mae cerfluniau o'r Forwyn, Iesu, y "saint," a phethau tebyg yn cael eu defnyddio yn "gymorth" i addoli (*sh* 33, 277)

Er i Paul ddewis ei eiriau'n ofalus wrth siarad â phobl Athen, mi 'roedd e wedi'i 'gythruddo' "wrth weld y ddinas yn llawn eilunod" (Actau 17:16)

Medrwn ofyn: 'Sut mae Jehofah yn teimlo ynglŷn â defnyddio eilunod wrth addoli? Oes eu hangen nhw, neu ydyn' nhw'n niweidiol?'

OES ANGEN DEFNYDDIO EILUNOD? (6 mun.)

Mae llawer o'r farn fod defnyddio eilunod yn rhan o addoli

Mae'n naturiol fod dyn ac yntau'n greadur anianol am weld a chyffwrdd yr hyn mae'n ei addoli gan fod gwrthrychau'n ymddangos yn fwy real nag ysbryd fodau

Mae Jehofah yn real; yn llawer rhagorach na'r holl greadigaeth anianol (1Bren 8:27)

"Ef yw'r Duw byw," sy'n fyw am byth (Jer 10:10)

Yn wahanol i'r pethau o'n cwmpas y medrwn eu gweld a'u cyffwrdd, mae e'n ddigynfnewid, heb fod amser yn effeithio dim arno (Mal 3:6; Iago 1:17)

Yn wahanol i eilunod, 'does dim angen gofalu amdano, na'i gynnal a'i gadw, nac angen cefnogaeth ei addolwyr arno (Jer 10:3-6)

Yn hytrach, "mae gofalu ganddo amdano" (1Pedr 5:6, 7)

Mae'n hawdd dod at yr un "sy'n gwranddo gweddi;" medrwn nesàu ato unrhyw adeg (Salm 65:2; 1Thes 5:17)

Mae e'n ateb gweddiâu ei weision ffyddlon (Iago 5:16)

Mae'n amlwg na fedr neb iawn ddadlau fod angen eilunod i addoli'r gwir Dduw

Ond mae'r Beibl yn dangos fod 'na agwedd arall fwy difrifol i'r pwnc

PAM MAE JEHOFAH WEDI GWAHARDD DEFNYDDIO EILUNOD WRTH ADDOLI? (12 mun.)

Yn y Gyfraith i Israel mi 'roedd 'na un gorchymyn anghyffredin iawn ynglŷn ag addoli—fe gawsant eu gwahardd rhag gwneud dim ar ffurf unrhyw beth yn y greadigaeth (Deut 5:8-10)

'Roedd y gorchymyn hwn yn cadw Israel ar wahan i'r cenhedloedd paganaidd, lle'r oedd eilunaddoliaeth yn rhemp ers cyfnod Nimrod (*it-1* 1169)

Mewn dull cariadus mae Jehofah yn egluro pam mae addoli eilunod yn beth drwg

Dyma ddau reswm i'w hystyried

Yn gynta', mae'n amhosib' gwneud unrhyw ffurf gywir o Jehofah (Eseia 46:5, 9)

Ysbryd ydi e, yn anweledig i'n golwg ni (Ex 33:20)

'Dyw eilunod ddim byd tebyg i'r Duw byw—fedran' nhw ddim gweld, na chlywed, na theimlo, na rhoi cymorth i'w haddolwyr (Salm 115:4-8; Eseia 44:9-20)

Yn ail, mae gan Jehofah yr hawl i'n hymroddiad eiddigeddus ni (Deut 5:9)

Ef ydi'r "unig wir Dduw" (Ioan 17:3)

'Does 'na ddim bod arall yn y bydysawd sydd â hawl i gael ei addoli (Eseia 42:8)

Mae'n iawn bod Jehofah yn "Dduw eiddigeddus" (Ex 34:14)

Pan fu i'w bobl gynt arfer eilunaddoliaeth, 'roedd e'n ystyried hynny'n odineb ysbrydol (Deut 32:21; Eseia 54:5, 6)

Yn debyg i'r bwlech sy'n codi rhwng godinebwr a'r cymar dieuog, dyna fel 'roedd eilunaddoliaeth yn pellhau pobl Israel oddi wrth Jehofah

Mae'r Beibl yn dangos fod eilunaddoliaeth yn arwain at weithredoedd drwg fel puteinio ac aberthu plant (1Bren 15:12; Esec 23:37)

'Does dim rhyfedd fod addoli eilunod yn gwneud Jehofah yn ddig

Trychineb yn dilyn trychineb yn ganlyniad addoli eilunod ydi llawer o hanes Israel a Jwda (*it-1*, 1169-72)

Oes 'na le i eilunod heddiw wrth addoli?

BETH AM EILUNOD YN “GYMORTH” I ADDOLI? (8 mun.)

Mae llawer o bobl â chanddyn' nhw'r bwriadau gorau yn dweud nad ydyn' nhw ddim yn addoli eilunod, dim ond eu defnyddio nhw'n gymorth i addoli Duw

'Dyw rhesymu fel hyn ddim yn cyfiawnhau eilunaddoliaeth (*w92 2/15 5-7; rs 183-4*)

Mae'n siŵr fod bwriad da gan y cenedl-ddyn Cornelius wrth benlinio o flaen Pedr (Actau 10:25, 26)

'Doedd yr Apostol Ioan chwaith ddim yn bwriadu eilunaddoli wrth blygu o flaen angel, ond eto fe gafodd ei geryddu (Dat 19:10; 22:9)

Gan i angel ac apostol wrthod derbyn addoliad, fyddai addoli eilunod y peth iawn i'w wneud, a hwythau mor israddol i angylion a dynion?

Nod pob gwir Gristion ydi addoli Jehofah “mewn ysbryd a gwirionedd” (Darllen Ioan 4:24)

Fedwrn ni ddim addoli mewn “gwirionedd” os ydym yn credu fod gwrthrychau difywyd yn meddu ar rym nad ydy e ganddyn' nhw

Dim ond gan un bod mae'r grym i gyfryngu rhwng Duw a dyn—Iesu Grist (Ioan14:6, 14; 1Tim 2:5)

Sut medwrn ni addoli Duw a rhyngu ei fodd os ydym yn dibynnu ar rywbeth materol mae e'n ei gondemnio

“Yn ôl ffydd yr ydym yn rhodio, nid yn ôl golwg” (2Cor 5:7)

CRISTNOGION HEDDIW YN ‘FFOI ODDI WRTH EILUNADDOLIAETH’ (8 mun.)

“Ffowch oddi wrth eilunaddoliaeth” ydi cyngor Paul (1Cor 10:14)

Gorchymyn ydi hwn inni “ffoi,” rhedeg ymaith, sy'n golygu mwy na dim ond osgoi!

Sut gall Cristnogion heddiw roi'r cyngor ysbrydoledig hwn ar waith?

Os mai dyma'r tro cynta' inni ddod ar draws y gorchymyn hwn, mae'n rhaid inni weithredu arno (*rs 185-6*)

Cofiwch, nid delw ydi pob eilun (*g76 12/22 12-15*)

Mae rhai darluniadau addurnedig sy'n portreadu gwahanol greadigaethau wedi hen golli unrhyw gysylltiad ag eilunaddoliaeth, a chymryd fod y cysylltiad yn bod o gwbl

Rhaid inni ystyried y gymuned a'r diwylliant lleol, cydwybod pobl eraill, a sut mae'r gwrthrych yn cael ei ddefnyddio (Rhuf 14:21)

Rhaid inni gael gwared ar unrhyw beth fyddai'n ein rhwystro ni rhag derbyn bendith a ffafr Jehofah (Deut 7:25, 26; Actau 19:19)

Mae gofyn i Gristnogion yn barhaol i “ffoi oddi wrth eilunaddoliaeth”

Ffurf ar eilunaddoliaeth ydi chwenychu a bod yn farus (Col 3:5)

Mae'r gair Groeg sy'n cael ei gyfieithu “chwenychu” yn medru golygu “dymuno cael rhagor” (*g79 4/22 6*)

Mae'r byd yn rhoi sylw mawr i farusrwydd, materoliaeth (1Tim 6:10)

Peidiwch â gwirioni ar unrhyw un ym myd chwaraeon neu adloniant

Delw ydi unrhyw beth sy'n cael y lle blaenaf gennym a'i ystyried yn bwysicach na Jehofah

Rhowch y flaenoriaeth i fuddiannau'r Deyrnas (Math 6:33)

ADDOLWN Y DUW BYW MEWN LLAWENYDD (5 mun.)

Addewid Iesu oedd: “Bydd y gwirionedd yn eich rhyddhau” (Ioan 8:32)

O gadw'n bell oddi wrth eilunaddoliaeth fe gawn y rhyddid sy'n dod o wir addoliad

Mae addoli eilunod yn gallu bod yn boen ac yn drwm ar y boced (Nodwch brofiad un a gafodd ei ryddhau; er enghraifft, *w92 1/1 6*)

Mae eilunaddoliaeth yn tueddu i feithrin hunanoldeb—yr eilunaddolwyr yn disgwyl derbyn rhywbeth gan yr eilunod; pwyslais gwir addoli ydi rhoddi (Iago 1:27)

Mae rhoddi'n arwain at hapusrwydd dilys (Actau 20:35)

Ymhyfrydwch am byth wrth wasanaethu Jehofah, “y Duw gwynfydedig,”! (1Tim 1:11)

(Glynwch yn glòs at y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)